**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

15 Gorffennaf 2013

Annwyl David

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona: darpariaethau mewn perthynas â chŵn**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf 2013 yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn fy natganiad ysgrifenedig ar 2 Mai ynghylch atal y gwaith ar Fil Rheoli Cŵn (Cymru) am y tro a'ch trafodaethau fel Pwyllgor yn dilyn hynny ar 10 a 24 Mehefin.

Rwyf wedi nodi fy atebion i'ch cwestiynau isod:

**(i) Mae'n bosibl bod rhai o'r amcanion polisi yr oedd Llywodraeth Cymru'n ceisio eu sicrhau drwy'r Bil yn medru cael eu cyflawni gan Fil y DU. Fodd bynnag, gan fod y ddau Fil yn canolbwyntio ar bethau gwahanol, gallai fod yn anodd i awdurdodau lleol ymyrryd yn gynnar dan Fil y DU i atal ci rhag dod i fod yn beryglus, sy'n fater yr oedd Bil Cymru'n gobeithio mynd i'r afael ag ef.**

**A wnewch chi egluro pam fod arddull Bil y DU yn fwy priodol yn eich barn chi?**

Fel y dywedais yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 2 Mai, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn delio'n effeithiol â chŵn sy'n beryglus ac allan o reolaeth. Rydym wedi ymrwymo i greu fframwaith statudol a fyddai'n ei gwneud yn anghyfreithlon i gŵn fod allan o reolaeth ac yn beryglus ar safle preifat. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddiogelu cŵn cymorth, er enghraifft cŵn tywys a chŵn clywed, yn ogystal â threfn statudol i ddiogelu lles cŵn a hyfforddi cŵn.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus sut y dylem roi'r amcanion hyn ar waith i gael y canlyniadau gorau er mwyn amddiffyn ein plant, teuluoedd a chymunedau'n well. Rwyf wedi ymrwymo hefyd i newid diwylliant yn y tymor hir. Ni all deddfwriaeth ar ei phen ei hun wneud hynny ond bydd yn mynd at wraidd y broblem trwy annog perchenogion cŵn i fod yn berchenogion cyfrifol.

Mae'n trafodaethau gydag awdurdodau gorfodi a sefydliadau trydydd sector yng Nghymru wedi dangos y byddai'n llawer gwell gan y rhai sy'n gorfodi ymyrryd yn gynnar ac atal digwyddiadau angheuol a/neu unrhyw berygl i les y ci. Hefyd mae'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991, a osodwyd yn ein Bil drafft, bellach yn symud ymlaen ym Mil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona drafft y Swyddfa Gartref.

Rwyf wedi edrych ar ddarpariaethau'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ac, er fy mod yn derbyn nifer o'r sylwadau sy'n beirniadu'r bil drafft, rwy'n credu fodd bynnag y gall fod yn ffordd ddefnyddiol o gyflawni'n huchelgais. Mae'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona bellach wedi'i gyflwyno i Senedd y DU, ac fe fyddaf yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn er mwyn sicrhau cysondeb wrth reoli cŵn ar draws Cymru a Lloegr (gan gofio bod cŵn a'u perchnogion yn teithio ar draws ffiniau). Byddaf hefyd yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd:

- yr agweddau yn ymwneud â lles ar gyfer rheoli cŵn mewn ffordd briodol;
- cyfrifoldebau perchnogion cŵn;
- gwerth cynhyrchu canllawiau ar y materion hyn y gellid eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, ac yn cael ein sicrhau fod Bil y DU yn cael ei ddrafftio mewn ffordd sy'n golygu:

- y gellid, ac y dylid, defnyddio camau ataliol cynnar, o bosib drwy ddefnyddio Contract Ymddygiad Derbyniol, sy'n ffordd o annog yr unigolyn i gydnabod ei ymddygiad a'i effaith, gyda'r nod o'i atal yn gyflym.
- os nad yw'r ymddygiad yn peidio, mae modd cynyddu'r pwerau gorfodi. Y gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n penderfynu ar amseriad y cynnydd hwnnw (nid oes cyfyngiadau amser penodol os nad yw'r ymddygiad yn newid)

Drwy ganiatáu i weithwyr proffesiynol herio pob ymddygiad annerbyniol *ar unwaith* (gan gynnwys cŵn sydd allan o reolaeth), yn hytrach na mynd drwy broses ffurfiol y llysoedd, gellir gosod safonau clir o ymddygiad derbyniol er mwyn atgyfnerthu'r neges na fydd ymddygiad annerbyniol yn cael ei oddef.

**(ii) Fedrwch chi egluro pam na allai Bil Cymru gyflawni'ch amcanion polisi'n llawn, a pha bwerau penodol sydd heb fod ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol i alluogi'r ddeddfwriaeth hon i gael ei gwneud yng Nghymru?**

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i barhau gyda'r polisi a amlinellwyd ar gyfer ein Bil Rheoli Cŵn (Cymru) arfaethedig.

Er y byddai ein Bil ni wedi llwyddo i gyflawni'r amcanion polisi, o ran gorfodaeth mae gan Fil y DU botensial ar gyfer darparu pwerau ehangach a mwy effeithiol i'r heddlu, cynghorau lleol a landlordiaid cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddelio â pherchnogion cŵn anghyfrifol a materion rheoli cŵn.

Rwy'n hyderus ein bod yn cyfrannu at y gwaith o lunio cynnwys Bil drafft y DU gan ei fod bellach yn cynnwys y diwygiadau i'r Ddeddf Cŵn Peryglus yr oeddem yn eu ceisio.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau fod Bil y DU a'r canllawiau ategol yn bodloni ein gofynion, ond rwy'n cadw'r opsiwn o gyflwyno Bil i Gymru.

**(iii) Rydych yn cyfeirio'n benodol at gael pwerau gwneud rheoliadau yn eich datganiad dyddiedig 2 Mai. Beth yw'r sefyllfa bresennol ynghylch cael y pwerau hyn, neu ydych chi bellach o'r farn nad ydynt yn angenrheidiol?**

Fel y gwyddoch o bosib, mae trafodaethau'n parhau ynghylch hyn. O ran gweithredu darpariaethau'r Bil mewn perthynas â rheoli cŵn, y ffactor hanfodol yw y dylid datblygu canllawiau i awdurdodau lleol a'r heddlu, gyda chytundeb y Swyddfa Gartref, a fydd yn sicrhau bod ymyraethau mewn perthynas â rheoli cŵn yn digwydd fel y rhagwelwyd yn ein Bil drafft. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm ar hyn o bryd pam na ddylai'r dyhead hwnnw gael ei gyflawni.

**(iv) Ydych chi'n rhagweld y byddwch yn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth benodol i Gymru mewn perthynas â rheoli cŵn yn y dyfodol agos?**

Rwyf wedi atal y Bil Rheoli Cŵn dros dro, yn hytrach na thynnu'r cynigion yn ôl. Fodd bynnag, os nad yw Mesur y DU yn foddhaol, mae gen i'r opsiwn o'i ddatblygu ymhellach.

Rhan o'r ateb ar gyfer ystyried cŵn allan o reolaeth a pheryglus oedd ein Bil drafft. Mae ein Map Ffordd ar Les Cŵn wedi gosod nifer o opsiynau a chamau sydd eisoes wedi'u cymryd. Mae gwahardd y defnydd o goleri electronig, er enghraifft, yn cael gwared ag effeithiau niweidiol posibl ar gyfer cŵn.

Rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno rheoliadau cadarn ac ymarferol ynghylch microsglodion ar gyfer cŵn yng Nghymru a gwella lles cŵn mewn safleoedd bridio trwyddedig.

Mae "Cod Ymarfer er lles Cŵn" Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir bod cyfrifoldeb ar berchnogion cŵn i sicrhau bod cŵn yn:

byw mewn amgylchedd addas;
cael bwyd iach i'w fwyta;
medru ymddwyn yn normal;
cael cwmni priodol;
cael eu hamddiffyn rhag poen, dioddef anafiadau ac afiechyd.

Bydd cydymffurfio â'r gofynion hyn yn help sylweddol i gadw rheolaeth dros gŵn.

Gobeithio bod yr ymatebion hyn yn ddefnyddiol i chi.



**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food